

**YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF**



**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CORFF
LLYWODRAETHU
2015-16**

**AELODAETH CORFF LLYWODRAETHOL
YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF**

LLYWODRAETHWYR:

ENW AT	STATWS	HYD
MR AG Davies	Pennaeth	n/a
Dr TH Jones	AL (Cadeirydd)	2018
Mrs E Patchell	AL	2016
Mrs S Hughes	AL	2017
Mrs M Wynne	AL	2016
Mr C James	AL	2016
Ms C Lewis	Rhiant	2015
Mr S Williams	Rhiant	2017
Mrs I Edwards	Rhiant	2017
Mrs S Wynn	Rhiant	2018
Dr S Clyburn	Rhiant	2016
Lle gwag	Rhiant	
Mr G Cynan	Cymuned	2015
Rev A Tudur	Cymuned	2017
Mr H James	Cymuned	2018
Mrs E Morgan	Cymuned	2017
Mr M Jones	Cymuned	2016
Dr A Williams	Athro	2017
Mr A Jones	Athro	2015
Lle gwag	Staff	

CLERC I'R LLYWODRAETHWYR:

Mr GD Jones,
029 20838803
Gareth.Jones7@Cardiff.gov.uk

Cyflwyniad

Bu 2015-16 yn flwyddyn arall hynod o brysur yn hanes yr ysgol. Bu perfformiad academaidd eithriadol gan nifer fawr o ddisgyblion yn nhymor yr haf yn enwedig yn y chweched dosbarth ac o ran ein canrannau A*-A ym ml. 11. Serch hynny, cymharol siomedig oedd perfformiad nifer o fechgyn carfan bl 11 ac mae'r ysgol yn hyderus y gwelwn welliant yn haf 2017.

Testun tristwch o'r mwyaf oedd colli disgybl o fl 11, Emily Stickells ym mis Mai, 2016. Estynnwyd cydymdeimlad holl gymuned yr ysgol i'w theulu a gwelwyd ein pobl ifanc ar eu gorau wrth ddod i delerau â'r fath golled.

Parhawyd â rhaglen gyfoethog o weithgareddau ar gyfer disgyblion ar hyd y flwyddyn a fu a hynny yn wyneb heriau ariannol a ddaw yn sgil newidiadau i ddalgychoedd ysgolion Cymraeg y ddinas. Dathlwyd llu o llwyddiannau ar hyd y flwyddyn fel cofiwch drwy dderbyn cylchlythyr tymhorol yr ysgol 'Newyddion Glantaf' ac rydym mewn safle da i adeiladu ar y llwyddiannau hyn yn y flwyddyn academaidd nesaf.

GWYBODAETH AM YR YSGOL

Nifer ar y gofrestr:

Blwyddyn 7:	176
Blwyddyn 8:	169
Blwyddyn 9:	171
Blwyddyn 10:	146
Blwyddyn 11:	205
Blwyddyn 12:	152
Blwyddyn 13:	142

Cyfanswm : 1161

STAFFIO

Nifer o Athrawon llawn amser cyfatebol:	79
Staff Eraill :	16

Staffio 2015 -16

Testun tristwch mawr fu colli Mrs Lowri Gruffydd yn ystod Haf 2015 wedi marwolaeth sydyn ac annisgwyl. Cofiw'n amdani am ei ffyddlondeb i'r ysgol, ei gofal a'i phroffesiynoldeb.

Ymddeolodd Mr Phil Davies, Adran DT, Mr Steve Davies, Pennaeth Celf, Mrs Shân Osborne, yr Adran Saesneg, Mrs Olga Fenner, staff ategol. Ymddeolodd hefyd, Mrs Brenda Goodfellow a Mrs Gaynor Jones o'r Adran Addysg Gorfforol amser Nadolig Gadawodd staff eraill ar gyfer camau nesaf eu gyrfa. Aeth Mr Arwel Jones i Fro Edern fel Pennaeth Cynorthwyol ddechrau Medi 2015 a gadawodd Mrs Helen Fureedon yr Adran Ddrama a Ms Catrin Griffiths yr Adran Addysg Grefyddol. Gadawodd nifer o gynorthwywyr Dysgu er mwyn datblygiad gyrfa pellach – Mr Jack rees, Ms Catrin Davies, Mr Rhodri Brown a Mr Rhodri Jones.

Dymunwn yn dda iddynt oll ac mae'r Corff Llywodraethol yn ddiolchgar iawn am eu hymroddiad a'u cyfraniad at lwyddiant addysg Gymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Apwyntiadau Newydd ar gyfer 2015-16

Penodwyd Miss Lowri Rees yn Bennaeth yr Adran Gelf a Mrs Megan Rummung yn Bennaeth yr Adran Saesneg. Penodwyd Mr Andy Walpole yn Bennaeth Cynnydd Bl. 7. Ymunodd Ms Gwennan Harries a Mr Geraint Davies â'r Adran Addysg Gorfforol, Ms Bethan Walkling â'r Adran Ddrama, Mrs Catrin Morgan â'r Adran Ffrangeg. Penodwyd Ms Sian O' Reagan yn Bennaeth yr Adran Ffrangeg. Daeth Ms Nia Davies a Mrs Alison Manley yn sgil cyfnodau mamolaeth Mrs Meleri Davies, Hanes a Mrs Meleri Light, Cymraeg.

Penodwyd Ms Leanne Thomas yn Uwch Gynorthw-ydd a Ms Lois Williams, Mr Jake Conway, Mrs Annest John a Mrs Fiona Evans yn gynorthwywyr newydd ar gyfer 2015-16.

Llongyfarchiadau gwresog iddynt i gyd, a chroeso cynnes i'r aelodau staff newydd.

Diogelu Disgyblion

Mrs Janet Burnhill, Pennaeth Cynorthwyol yw ein Swyddog Diogelu. Rhoddir hyfforddiant blynyddol i staff ar faterion diogelu. Y llywodraethwr cyswllt ar gyfer y maes yw Mrs Iona Edwards

Datblygiad Proffesiynol Staff a Rheoli Perfformiad

Cynhaliwyd dyddiau hyfforddiant-mewn-swydd ar gyfer yr holl athrawon, yn ôl y dyraniad statudol. Ymhlith y prif faterion y rhoddwyd sylw iddynt mewn cyfarfodydd oedd y canlynol:

- Diogelu
- Ymdrin â data Cyrhaeddiad
- defnyddio'r Epi-pen

- Trefniadau Trosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol
- Gwahaniaethu
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Datblygu'r defnydd o Gynorthwyyr Dosbarth
- Rheoli ymddygiad a chysoni arferion
- Datblygiad ac Anghenion Disgyblion Y Ganolfan Adnoddau Arbennig
- Materion Diogelu Plant
- Radicaleiddio
- Cyrsiau TGAU a Safon Uwch newydd a datblygu Cwricwlwm 14-19
- Asesu safoni a chymedroli
- Hyfforddiant pynciol i bob athro ar y cyd gyda 12 o ysgolion cyfun cyfrwng Cymraeg De-Ddwyrain Cymru
- Hyfforddiant e-ddiogelwch ar y cyd ag ysgolion cynradd clwstwr Glantaf

Cyflawnwyd y broses rheoli perfformiad drwy gynnal cyfarfodydd gyda rheolwyr atebol a thrwy ymweliadau â gwersi cydweithwyr. Gosodwyd targedau personol ar gyfer yr holl athrawon, aelodau'r Uwch-Dim Rheoli a'r staff gweinyddol.

Pwyllgorau'r Corff Llywodraethol

Cynhaliwyd 22 o gyfarfodydd gydag is-bwyllgorau a phwyllgorau'r Corff Llywodraethu yn ystod y flwyddyn. Bu presenoldeb Llywodraethwyr yn y cyfarfodydd yn gyson dda, a chafwyd cworwm bron yn ddieithriad ym mhob pwyllgor ac is-bwyllgor drwy gydol y flwyddyn. Trefnwyd bod cofrestr presenoldeb Llywodraethwyr yn cael ei chadw, yn unol ag argymhelliad gan yr archwilwyr ariannol allanol.

Cafwyd cymorth gan aelodau'r Corff Llywodraethu yn y meysydd a ganlyn:

- penodi staff newydd a gweithredu'r strwythur staffio
- ymateb i bolisiâu mewnol a sirol
- ymweliadau mewn perthynas â datblygiadau galwedigaethol a chwricwlaidd 14-19
- ymweliad a thrafodaeth mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch
- ymateb i gynigion Cyngor Caerdydd ar gyfer addasu datblygiad ysgolion Cymraeg y ddinas yn sgil y cynnydd aruthrol a pharhaus yn y galw am addysg Gymraeg.
- ymweliadau â chyfarfodydd ag aelodau'r Tîm Arwain fel rhan o broses hunan-arfarnu'r ysgol. Cafwyd trafodaeth a mewnbwn i gylch cynllunio a hunan arfarnu'r ysgol
- mynychu cyfarfodydd sirol a hyfforddiant mewn swydd ar gyfer llywodraethwyr.
- Trafod ac ymateb i ddata perfformiad yr ysgol yn ei gyd-destun

- Prosesau Rheoli Perfformiad ac ymdrin â materion staffio
- Cynllunio ar gyfer gwelliant a rheolaeth gyllidol.

Mae'r Pennaeth a'r ysgol am ddiolch yn fawr iawn i'r Llywodraethwyr am roi eu hamser mor hael ac am ddangos cefnogaeth mor ddi-ildio.

Cyfrwng Iaith yr Ysgol a Lle'r Gymraeg

Ysgol gyfun Gymraeg ei chyfrwng yw Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Cymraeg yw cyfrwng y gwersi oll, ag eithrio'r rhai Saesneg a'r rhai Ieithoedd Modern lle defnyddir cymysgedd o'r Gymraeg a'r Iaith Fodern a ddysgir. Gan fod cysylltiad allweddol rhwng agwedd gadarnhaol at y Gymraeg a'r defnydd effeithiol ohoni, gwneir pob ymdrech i hyrwyddo parch at yr iaith Gymraeg. Rhoddir pwyslais ar hanes a diwylliant Cymru a'r Gymraeg yw iaith gymdeithasol yr ysgol. Anogir y disgyblion i fanteisio ar bob cyfle i'w defnyddio ymhob agwedd o'u bywydau. Ystyrir hyn yn hanfodol bwysig, yn enwedig i ddisgyblion sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Datblygiadau cwricwlaid 2015-2016

Bu'r pwyslais eleni ar barhau i gynnig cwricwlwm eang, a datblygu Llwybrau Dysgu galwedigaethol 14-19, yn unol ag agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ym Medi 2015 cyflwynwyd cyrsiau newydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Mathemateg Dwbl TGAU i bawb
- Y Fagoloriaeth Gymreig CA4 a CA5

Sicrhawyd bod y cwricwlwm academaidd yn parhau'n eang ac yn ddiogel, ac yn cynnwys Lladin, dwy iaith fodern, a Gwyddoniaeth driphlyg. Mae'r ysgol yn parhau i gyrraedd targed y Llywodraeth – sef 30 o gyrsiau yn CA4 a CA5, gyda 5 cwrs ar draws 3 pharth (`domain`) yn alwedigaethol. Yng Nglantaf, cynigir 47 o gyrsiau ôl-16 sy'n arwain at gymhwyster ffurfiol ar lefel 3 (sef Safon Uwch neu gyfatebol), a 38 o gyrsiau i ddisgyblion rhwng 14 ac 16 oed (sef safon TGAU neu gyfatebol). Yn ychwanegol at y rhain, cynigir 5 cwrs sy'n arwain at gymwysterau heb fod yn ffurfiol, megis Gwobr Dug Caeredin (Efydd), ac Arweinydd Chwaraeon Lefel 1, i ddisgyblion 14-16 oed, a 15 cwrs o'r math i fyfyrwyr 16-18 oed, megis Maetheg a'r Gymuned, Arweinydd Chwaraeon Lefel 2, a Gwobr Dug Caeredin. Felly cyfansymiau'r cyrsiau a gynigir yw'r canlynol:

14-16 oed : 38 o gyrsiau

16-18 oed : 47 o gyrsiau.

Eleni eto cynigwyd y cwrs Peirianeg Ceir (trwy bartneriaeth â'r coleg). Mae'r ysgol wedi dechrau cwrs Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 yn CA5, yn ddilyniant i'r cwrs yn CA4. Ar gyfer y flwyddyn academaidd a 2015-16 roedd y ddarpariaeth gwricwlaidd alwedigaethol ar gyfer disgyblion 14-19 yn cynnwys:

- cwrs Peirianeg Ceir (Cwrs Sylfaen Cyn-Brentisiaeth);
- Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd ag Ysgol Plasmawr;
- Technoleg Cerdd (BTEC dwy-flynedd) ar y cyd ag Ysgol Plasmawr;
- Cwrs CACHE Gofal Plant Lefel 2 a Lefel 3;
- Cwrs CISCO (Technegwyr technoleg gwybodaeth) Lefel 2 a 3;(Neb yn ei ddilyn yn 2015-16)
- Cwrs Thwristiaeth L3 a L2;
- Cwrs Astudiaethau Busnes;
- Cwrs Trin Gwallt, Harddwch a Gwasanaethau Salon;
- Cwrs Iechyd a Gofal.
- Ffrangeg ar gyfer Busnes NVQL1
- Addysg Gorfforol BTec

Darparwyd sesiynau Llythrennedd a Rhifedd unwaith bob pythefnos i bawb ym Mlwyddyn 7, 8 a 9

Canlyniadau'r Ysgol - Gweler Atodiad 1 ar gyfer data perfformiad 2015-16 a data cymharol)

Targedau'r ysgol ar gyfer 2016-2017:

Cyfnod Allweddol 3	% lefel 5 neu uwch yn CA3
Cymraeg	94%
Saesneg	93.5
Mathemateg	92.9
Gwyddoniaeth	98.8
Dangosydd pynciau craidd	92.3
Cyfnod Allweddol 4	Canran y disgyblion yn:
Ennill 5 pwnc TGAU gradd A* - C neu'n gyfatebol	87.8
Ennill 5 pwnc TGAU gradd A* - G	98
Cyrraedd y dangosydd pynciau craidd	71.2
Gadael heb gymhwyster	0
Cyfnod Allweddol 5	Canran y disgyblion yn:
A gofrestrwyd ar gyfer o leiaf un arholiad	100
Yn ennill 2 gymhwyster Safon Uwch neu'r hyn sy'n gyfwerth	98.7

Hunan-arfarnu

Canolbwyntiwyd eleni ar ddiwygio'r hunan-arfarniad blynyddol ym meysydd tri chwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Ysgolion gan greu hunan arfarniad ysgol gyfan cytbwys ac eang:

- Arfarnwyd gweithrediad y Cynllun Gwella Ysgol;
- Crewyd hunan arfarniad gan bob adran unigol yn yr ysgol o ran safonau cyrhaeddiad a chyflawniad, ansawdd y dysgu, addysgu ac asesu, arweinyddiaeth adrannol, a'i heffeithlonrwydd. Trafodwyd yr adroddiadau hyn â Rheolwyr Llinell a chysonwyd disgwyliadau a diwyg ar gyfer pob adroddiad.
- Mae cylch arfarnu gwaith adrannau gan aelodau'r Uwch-dim Rheoli yn unol â strategaeth hunan-arfarnu'r ysgol wedi parhau
- Cyflwynwyd sesiynau anelu at Ragoriaeth gan ddiffinio 'Rhogoriaeth' yn y dosbarth yn unol ag adroddiadau diweddar Estyn. Trafodwyd ac archwiliwyd dulliau gwahaniaethol o addysgu ac ansawdd adborth i ddisgyblion. Samplwyd a thrafodwyd enghreifftiau o adborth gan staff yn drawsgwricwlaidd. Ar sail adborth a thrafodaethau hunanarfarnu bydd yr ysgol yn parhau â'i ffocws ar adborth ac yn edrych ar gyfranogiad y disgyblion yn eu gwersi yn ystod 2016-17.
- Lluniwyd cynlluniau datblygu adran ac hunan-arfarniadau gan bob pwnc rhwng mis Hydref ac Ionawr
- Dadansoddwyd ystod eang o ddata gwerth-atodol a meincnodol er mwyn darganfod ein cryfderau a'n gwendidau
- Bu'r Corff Llywodraethu'n rhan o'r broses hunan-arfarnu ac fe'i hymgorfforir yn nhrefn Rheolaeth Linell yr ysgol.
- Cyfrannodd aelodau'r Corff Llywodraethu at y broses hunan-arfarnu fewnol yn y ffyrdd canlynol :
 - drwy ymuno â'r Uwch-Dim Arwain mewn cyfarfodydd i drafod hunan-arfarniad yr ysgol ar draws y meysydd ffocws
 - drwy gydweithio ag aelodau staff perthnasol mewn meysydd pwysig megis diogelu ac Addysg Anghenion Arbennig
 - drwy drafod ac ymateb i gynlluniau hunan-arfarnu a chynllun gwelliant yr ysgol a ddisgrifiwyd uchod.

Ar sail yr hunan-arfarniadau hyn, buwyd yn:

1. Cynllunio meysydd ffocws ar gyfer Cynllun Gwella Ysgol 2016-18
2. Cynllunio Cynlluniau Datblygu Adran 2016-17;
3. Didoli blaenoriaethau allweddol ar gyfer sylw yn ystod y blynyddoedd nesaf
4. Llunio cynllun ar gyfer hyrwyddo datblygiad llythrennedd, rhifedd a Chymhwysedd Digidol yn y dosbarth a'r broses gymedroli a safoni yn y pynciau craidd
5. ystyried yn fanwl, yn wyneb blaenoriaethau gwella, gyllideb yr ysgol, lefelau staffio a chyllidebau adrannol ar gyfer 2016-17

Adeiladau

Tai Bach

Mae'r tai bach newydd a ddarparwyd gan yr All fel rhan o estyniadau i'r adeiladau yn 2011 ar gyfer bechgyn a merched wedi profi'n addas at eu pwrpas. Mae gan yr ysgol nifer ddigonol o dai bach yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Lleolir tai bach yn y rhan fwyaf o brif flociau addysgu'r ysgol. Y mae gan yr ysgol hefyd dai bach digonol i ymateb i nifer y staff. Glanheir y tai bach yn ddyddiol gan gontractwyr allanol. Arolygir cyflwr y tai bach yn ddyddiol gan lanhawyr a staff y safle. Y mae gan y dai bach yr ysgol sychwyr dwylo trydanol. Mae cyfleusterau ar gyfer yr anabl gan yr ysgol.

Cynnal a Chadw

Gweithredwyd rhaglen estynedig o welliannau ac estyniadau i'n hadeiladau yn ystod y flwyddyn ysgol a aeth heibio. Roedd y newidiadau'n cynnwys:

- 1. Paneli solar**
Cwblhawyd y gwaith o osod paneli ynni'r haul ar do bloc E.
Gyda 200 o baneli'n cynhyrchu trydan erbyn hyn.
- 2. Goleuadau allanol**
Gosodwyd nifer o oleuadau newydd mwy ynni effeithiol ar draws yr adeilad a newidiwyd y goleuadau ar yr Astroturf er mwyn datrys problemau a chydymffurfio â gofynion y gymuned.
- 3. Diogelwch ystafelloedd Cyfrifiaduron**
Cynyddwyd mesurau diogelu'r ystafelloedd a'u hoffer.
- 4. CCTV**
Gosodwyd camerau newydd yn lle'r rhai sydd wedi torri.
Sefydlwyd system a recordio newydd.
- 5. Ffonau**
Gosodwyd system ffonau digidol newydd drwy'r ysgol.
- 6. Gwastraff**
Sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer rheoli gwastraff er mwyn osgoi cael cerbydau ar y buarth i gasglu gwastraff.
- 7. Paentio**
Mae rhaglen dreigl ar waith
- 8. Cynnal a Chadw**
Bu contractwyr ar y safle yn ystod y flwyddyn yn gwneud gwaith ar y systemau trydanol, y boeleri, y lifft, offer y gegin, offer y labordai, offer

yr Adran Addysg Gorfforol ac offer yr Adran Dechnoleg ynghyd â llu o fanion ddydd i ddydd.

Gweithgareddau Allgyrsiol a Llwyddiannau

Mae gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol yn wedd allweddol ar brofiadau'r disgyblion; yn hyrwyddo datblygiad ieithyddol, cymdeithasol a diwylliannol tra'n cadarnhau Cymreictod a dinasyddiaeth. Mae'r ysgol yn parhau i gynnig cyfleoedd ardderchog i'r disgyblion ehangu a datblygu eu doniau drwy weithgareddau y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol. Mae'r rhain ynghyd â llwyddiannau unigol yn llawer rhy niferus i'w rhestru ond byddwch wedi darllen amdanynt ar dudalennau'r Dinesydd, ar wefan yr ysgol ac ar dudalennau tymhorol 'Newyddion Glantaf'.

Drwy gydol y flwyddyn ysgol, cynhelir clybiau a chymdeithasau amser cinio niferus, gan gynnwys corau, partïon cerdd dant, bandiau jazz, clwb Cristnogol, clwb yr amgylchedd, clwb gwaith cartref, clwb cyfrifiaduron, gwaith "Seren", grŵp SNAG (Bwyta'n lach), cymdeithas ddadlau, llyfrgell, ymarferion timau chwaraeon, Cyngor yr Ysgol, a phwyllgorau'r chweched dosbarth.

Diolch yn gynnes i holl athrawon Glantaf am sicrhau cyfleoedd cyfoethog ychwanegol at y gwersi arferol i'n disgyblion.

Ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn, bu neuadd yr ysgol dan ei sang ar gyfer cyfarfodydd pwysig. Yn eu plith roedd y noson lwyddiannus ar gyfer denu plant i ddychwelyd i'r chweched dosbarth a'r noson ar gyfer rhieni newydd blwyddyn 6.

Cysylltiadau Cymunedol

Cyfrannodd yr ysgol at elusennau lleol a rhyngwladol eto eleni gan godi dros **£9000**. Gweler isod:

Beat £2000
Elusen Cancr y Fron £300
Arch Noa £292.00
Elusen George Thomas £260
Apêl Pabi Coch £89.35
Plant mewn Angen £878
Canolfan Canser Felindre £2573.57
Amber Project £1000
Macmillan £289.00

Yn ogystal mae'r Chweched Dosbarth wedi bod cynnal amryw weithgareddau ac wedi codi swm o £1000 i Elusen Cardiff Womens Aid

Fe fydd y Cyngor Disgyblion yn penderfynu ar elusennau 2016-17 yn yr hydref.

Cysylltiadau a'r Ysgolion Cynradd

Cynhaliwyd cyfarfodydd yn gyson drwy'r flwyddyn gyda phenaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch. Cynhaliwyd sesiynau safoni a chymedroli ar y cyd, rhannwyd hyfforddiant mewn swydd a bu athrawon yn symud rhwng yr ysgolion wrth ymwneud ag ystod o weithgareddau pontio . Bu cyfarfodydd cyson i drafod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, strategaethau llythrennedd a rhifedd wrth drosglwyddo, materion e-ddiogelwch a mireinio a gweithredu'r Cynllun Trosglwyddo. Sefydlwyd grwp rhwng yr ysgolion er mwyn creu cyfarwyddyd diogelwch ar lein a fydd yn ymddangos ar wefannau'r ysgolion yn 2016-17. Cynhaliwyd nifer o ymweliadau ag ysgolion cynradd gan gan Bennaeth Blwyddyn 7. a sicrhawyd bod y Cynllun PESS yn parhau i fod yn weithredol a chyflwynwyd sesiynau dringo i ddisgyblion yr ysgolion cynradd yn y Neuadd Chwaraeon newydd

Cynhaliwyd cyfarfod ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid disgyblion newydd a fu'n hynod o lwyddiannus. Bu swyddogion y Chweched ac aelodau o'r staff yn eu hebrwng o amgylch yr adeilad cyn y cyfarfod ffurfiol. Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn, gyda dros 200 o rieni'n bresennol, a bu'r Pennaeth, a Phennaeth Blwyddyn 7 yn annerch y rhieni ac yn ateb eu cwestiynau.

Bu'r ymweliadau â'r uwchradd gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yn llwyddiannus iawn, a throsglwyddwyd data perthnasol yn brydlon. Llwyddiant mawr, eto oedd wythnos Llangrannog cyn hanner tymor yr hydref, ymweliadau'r ysgolion cynradd â'n Sioe Gerdd a'r ddeuddydd a dreuliodd gan ddisgyblion blwyddyn 6 mewn gwersi yng Nglantaf.

Cyfeillion Glantaf - Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau ar gyfer codi arian gan y Gymdeithas rhieni ac Athrawon yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Ffair Nadolig, taith siopa i Gaerfaddon, raffl a gwerthu talebau llyfrau. Mae'r cynllun talebau archfarchnad, punt y mis a'r cynllun 'The Giving Machine' sydd yn ffordd o gyfrannu i'r ysgol wrth siopa ar lein, yn parhau. Am fwy o wybodaeth am y cynllun cysylltwch â 'Cyfeillion Glantaf'

Codwyd digon o arian i gyfrannu at oleuadau a system sain newydd i'r neuadd a fydd yn gaffaeliad wrth gyflwyno sioeau a nosweithiau. Mae croeso cynnes i unrhyw riant sydd â diddordeb mewn helpu Cyfeillion Glantaf i godi arian naill ai drwy helpu gyda gweithgareddau neu ymuno yn y cynlluniau talebau, punt y mis neu'r 'Giving Machine'. Mae ein diolch yn fawr i swyddogion y Gymdeithas am eu brwdfrydedd a'r gwaith called a wnaed ganddynt drwy gydol y flwyddyn. Diolch hefyd i'r rhieni a'r teuluoedd eraill a fu mor gefnogol i'r ysgol dros y blynnyddoedd.

Ddarpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r niferoedd o ddysgwyr a gydnabyddir bod ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel a ganlyn:

	GY	GY+	Datganiad	Cyfanswm
Bl 7	19 (10.9%)	9 (5.1%)	0 (0.0%)	28 (16.0%)
Bl 8	30 (17.8%)	12 (7.1%)	2 (1.2%)	45 (26.6%)
Bl 9	17 (9.9%)	9 (5.3%)	3 (1.8%)	29 (17.0%)
Bl 10	21 (14.3%)	12 (8.2%)	1 (0.7%)	34 (23.3%)
Bl 11	27 (13.1%)	6 (2.9%)	2 (1.0%)	35 (17.1%)
Cyfanswm	114 (13.2%)	48 (5.5%)	8 (0.9%)	171 (19.7%)

	GY	GY+	Datganiad	Cyfanswm
Bl 12	8 (5.8%)	12 (8.6%)	0 (0.0%)	17 (12.2%)
Bl 13	9 (6.5%)	3 (2.2%)	1 (+2 Bl14) (2.2%)	13 (9.4%)

Mae 10 o ddysgwyr yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol, gan gynnwys 1 o tu allan i'r Sir

1 dysgwr yn y brif-ffrwd sydd â Datganiad (Bl 11)

Staff Allweddol

Mrs Helen Sharkey (Pennaeth yr Adran Gynhwysiant / Cydlynnydd ADY)

Mrs Claire Wilson (Athrawes â Gofal dros y Ganolfan Arbenigol)

Cynorthwywyr Dysgu (CDs):

Cynorthwywyr Dysgu (CDs):

	Prif Ffrwd	Y Ganolfan Arbenigol (Ariennir gan y Sir)
Graddfa 3	4	0
Graddfa 4	2.5	4
Graddfa 5	1	1
Graddfa 6	1	1
Cyfanswm	8.5	6

Apwyntiwyd 4 aelod staff newydd i'r adran ym mis Medi ac apwyntiwyd yn fewnol i rôl Arweinydd Tîm y brif ffrwd (Graddfa 6). Parheir i glustnodi pythefnos o anwytho i staff newydd o fewn yr Adran.

Ymyraethau

Darparwyd yr ymyriadau isod i ddysgwyr eleni gan staff yr adran:

- **anelu@** - llythrennedd grŵp bach i dargedu L4 – 8 wythnos (21 dysgwr)
- **Upskil** – llythrennedd grŵp bach i dargedu L3 (Bl 7 ac 8) (12 dysgwr)
- **STARS Unigol** – llythrennedd unigol dwys (2 ddysgwr)
- **Rainbow Readers** - Darllen Saesneg unigol (8 dysgwr)
- **T@rgedu Rhifedd** - rhifedd grŵp bach – 10 wythnos (71 dysgwr)

- **Maths Factor** – rhifedd grŵp dros gyfnod hir (4 dysgwr)
- Mewnbwn wythnosol arbenigol dyslecsia (12 dysgwr)
- Mewnbwn wythnosol sgiliau adolygu Dywsgywr BI 12 a 13 (dysgwr)
- **ELSA** - llythrennedd emosiynol - dros gyfnod o tua 6 wythnos (30 dysgwr hyd yn hyn)
- **Talkabout** i ddatblygu sgiliau cymdeithasol BI 7 ac 8 (18 dysgwr)
- Rhaglenni arbenigol amrywiol i ddysgwyr ag anawsterau dwys sydd ynghlwm â'r Ganolfan Arbenigol (10 dysgwr)
- Rhaglenni unigol iaith a lleferydd arbenigol (2 dysgwr)

Pontio

Parheir i fuddsoddir amser sylweddol mewn casglu gwybodaeth am ddysgwyr cyn iddynt drosglwyddo atom. Gwelir cysylltiadau cryf yn parhau ag ysgolion cynradd y clwstwr. Mae'r gwaith ar hyn o bryd yn cynnwys mabwysiadu ymateb cytûn i'r Cod Ymarfer ADY newydd a ddisgwyllir ym Medi 2017.

Hyfforddiant

Unigol

- ELSA i aelod 3 staff ychwanegol (5 aelod staff presenol yn gymwys)
- Nifer o ymyraethau: Talkabout, Rainbow Readers, Secondary Language Link, Llywio Darllen, SAIL, BSquared
- Cyrsiau: Awtistiaeth, Numicon (adnoddau rhifedd), Syndrom Down
- Hyfforddiant sut i arsywli i Uwch-CDs (mewnol) ac Aseidiadau Risg Profiad Gwaith
- Cyfarfodydd a chynadledau yn ymwneud â'r Cod Ymarfer newydd
- Strengthening Families (3 aelod staff presenol yn gymwys)
- Cyfleoedd wedi trefnu i staff ymweld ag arferion da mewn ysgolion eraill a rheadru
- Adrannol - Rhagoriaeth wrth Gynorthwyo yn y dosbarth – gyda ffocws ar gysondeb
- Dulliau Dysgu Aml-Synhwyrol i'r staff gyfan, o fewn cyd-destun ffocws ysgol gyfan ar wahaniaethu

Datblygiadau 2015-16

- Newid enw'r adran i'r Adran Gynhwysiant a diffiniad newydd o Gynhwysiant:
Lleihau rhwystrau dysgu a chymdeithasol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at addysg bwrpasol ac at holl weithgareddau'r gymuned. Gwneir hyn drwy ymateb yn hyblyg i anghenion dysgwyr unigol. © Glantaf 2015
- Cwblhawyd y broses o greu Proffil Dysgwr ar gyfer pob dysgwr ADY BI 7 - 13
- Cryfhawyd llais y dysgwyr yn y proffiliau unigol ac erbyn hyn gwelir mewnbwn graddoledig i lais dysgwyr wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Rainbow Readers – Ymyrraeth darllen Saesneg newydd
- Adnewyddiad llwyr o'r Polisi ADY a chreu Polisi Gofal Personol Agos.
- Holiadur staff blynyddol am faterion ADY er mwyn gallu hunan-arfarnu'n fwy effeithiol

Y Ganolfan Adnoddau Arbenigol

- Cyd-gynllunio gyda'r Sir ar gyfer y cynnydd disgwylidig yn nifer dysgwyr y Ganolfan. Cafwyd cytundeb y byddai athro/athrawes arbenigol os ydy nifer y dysgwyr dros 10, a chyfradd staffio 1:2 ar gyfer CDs. Disgwylir tua 16 dysgwr l'r Ganolfan erbyn Medi 2017.
- Crëwyd Portffolio i farchnata'r Ganolfan
- Ar gais Glantaf, sefydlwyd Fforwm Sirol ar gyfer Canolfannau Arbenigol Uwchradd.
- Defnyddir rhaglen asesu BSquared i dracio cynnydd dysgwyr
- Crëwyd cysylltiadau newydd gyda cholegau addysg bellach er mwyn cynllunio trosglwyddo

Camau Nesaf

- Iaith a lleferydd – Sgrinio yn Nhyrnor yr Haf (anawsterau TGCh wedi arwain at oedi)
- Cwblhau a sefydlu ymateb y clwstwr i'r Cod Ymarfer ADY newydd
- Addasu dylestwyddau staff yr Adran i alluogi ymateb fel y disgwylir yn y Cod newydd.
- Sichrau staff cymwys i weinyddu asesiadau trefniadau mynediad at arholiadau fel y'i nodir gan y byrddau arholi o dan y drefn newydd.
- Sichrau ystafelloedd pwrpasol addas ar gyfer dysgwyr i weithio'n unigol neu mewn grwpiau bach.
- Cyd-gynllunio gyda'r Sir ar gyfer newidiadau i adeiladau'r Ganolfan i alluogi'r twf a ddisgwylir.

Presenoldeb

Isod mae % absenoldebau a phresenoldeb Glantaf dros y 10 mlynedd diwethaf. Gwelir bod y presenoldeb yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond dros y cyfnod mae gwelliant sylweddol wedi bod.

% Abs Heb Awdur		%Abs Gydag Awdur.	% Presenoldeb
2006-7	1.3	6.0	92.7%
2007-8	1.0	6.0	93.0%
2008-9	0.9	6.4	92.7% <i>Dechrau</i>
<i>Schoolcomms</i>			
2009-10	0.63	6.12	93.25%
2010-11	0.89	5.78	93.33%
2011-12	1.73	4.67	93.6%
2012-13	1.2	4.2	94.6%
2013-14	1.2	3.7	95.10%
2014-15	1.32	3.46	95.22%
2015-16	1.23	3.32	95.45%

Y ffordd ymlaen:

- Parhau ac ehangu'r defnydd o Schoolcomms (system cyfathrebu) gan staff y swyddfa.

- Monitro absenoldebau yn fanwl gan yr athrawon dosbarth er mwyn lleihau'r rhai answyddogol a chydweithio agos rhwng Arweinwyr Cynnydd, y Swyddog Presenoldeb a theuluoedd.
- Defnyddio "lesson monitor" yn gyson gan bawb gan ei ymestyn i gynnwys yr adran Addysg Gorfforol.

Gwaharddiadau dros dro / Parhaol

Ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn barhaol y 2015-16.

Cyfanswm gwaharddiadau Cyfnod Penodol Medi 2015 –Gorffennaf 2016 oedd 18 (11 disgybl). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol iawn â 2009-10 lle roedd 73 o waharddiadau ond yn dangos peth gynnydd ar y flwyddyn 2014-15 lle bu 13 gwaharddiad cyfnod penodol. Mae'r gwelliannau a welwyd wrth gynnal ac adfer ymddygiad yn argoeli'n dda ar gyfer lleihad arwyddocaol yn 2016-17.

ADRODDIAD CYLLID EBRILL 2015 – MAWRTH 2016

CRONFA'R YSGOL EBRILL 2015 – MAWRTH 2016

Arian yn y banc 1 Ebrill 2015

£222,345.82

Arian a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn

£363,772.34

Taliadau yn ystod y flwyddyn

£391,995.77

Arian yn y banc 31 Mawrth 2016

£194,122.39

Dyfarniad adroddiad Estyn diwethaf yr ysgol oedd gradd 'Da' ar draws y tri chwestiwn allweddol sydd yn ganolog i waith ysgol. Diffinir 'da' fel perfformiad sydd yn dangos:

'Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol'

Gall rhieni ddarllen yr adroddiad llawn diwethaf a gyhoeddwyd drwy ddilyn y ddolen isod neu gellir cysylltu â'r ysgol i ofyn am gopi caled.

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/6814071/>

Disgwylir i'r ysgol gael ei harolygu nesaf yn 2017

Atodiad 1 – Data Perfformiad

Trosolwg Perfformiad

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf - Data Cymharol/Comparative Data								
Cyfnod Allweddol 3 DPC / KS3 - Core Subject Indicator								
Dangosydd Pynciau Craidd (Core Subject Indicator)	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Caerdydd / Cardiff	64.35%	65.31%	69.62%	74.24%	77.80%	81.51%	83%	83%
Cymru / Wales	61.35%	63.72%	68.00%	72.53%	77.04%	81.00%	84%	84%
Ysgol / School	74.74%	73.02%	78.37%	80.89%	84.79%	91.26%	91.20%	93.00%
Cyfnod Allweddol 4 L2+ / Key Stage 4 - L2+ inc E/W&M								
Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Iaith a Mathemateg (Level 2 threshold including English/Welsh and Maths)	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Caerdydd / Cardiff	44.34%	47.56%	48.42%	49.29%	49.86%	53.59%	59%	62%
Cymru / Wales	47.19%	49.41%	50.10%	51.08%	52.73%	55.10%	58%	60%
Ysgol / School	69.78%	67.78%	65.98%	64.17%	67.15%	73.21%	70%	70%
CA4 Trothwy Lefel 2 / KS 4 Level 2 Threshold								
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Caerdydd / Cardiff	58.59%	61.43%	63.89%	68.34%	73.00%	74.99%	81%	83%
Cymru / Wales	60.66%	63.76%	67.29%	72.60%	77.78%	82.00%	83%	84%
Ysgol / School	80.22%	76.67%	77.84%	76.47%	80.68%	85.27%	83%	77%
CA4 Trothwy Lefel 1 /KS4 Level 1 Threshold								
	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Caerdydd / Cardiff	86.91%	87.77%	89.32%	91.16%	91.74%	92.79%	92%	94%
Cymru / Wales	88.20%	89.66%	90.32%	91.77%	93.17%	93.80%	94%	95%
Ysgol / School	93.96%	98.33%	97.94%	97.33%	97.58%	98.21%	98%	98%
CA5 - L3 / Key Stage 5 - L3								
Disgyblion yn Cyrraedd Trothwy Lefel 3 - 2 Safon Uwch + (pupils entering a volume equivalent to 2 A levels attaining the Level 3 threshold)	2008/09	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16
Caerdydd / Cardiff	96.20%	95.00%	96.00%	96.90%	96.00%	97.17%	97%	98%
Cymru / Wales	96.00%	94.80%	96.30%	96.90%	96.50%	97%	97%	97%
Ysgol / School					95%	96%	99%	99%

Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Cod yr ALI / Ysgol 681/4071
Enw'r All Caerdydd

Adroddiad Cymharol yr Ysgol: Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol


Sgôr safonedig ar sail oedran

Mae sgortau safonedig ar sail oedran yn eich galluogi i gymharu pob disgybl ag eraill yng Nghymru o'r un oedran (mewn blynyddoedd a misoedd) a gymerodd yr un profion ym mis Ebrill a Mai 2016. At ddiwedd cymharu mae'r tabiau a'r startiau isod yn crynhoi'r sgortau safonedig ar sail oedran ar gyfer pob grŵp blydydd yn eich ysgol, yn eich awdurdod lleol ac yng Nghymru.


Canran y disgyblion o fewn pob ystod sgoriau:

BCC	Darllen Saesneg			Darllen Cymraeg			Rhifedd Gweithdrefnol			Rhifedd Rhesymu			
	Ysgol	ALI	Cymru	Ysgol	ALI	Cymru	Ysgol	ALI	Cymru	Ysgol	ALI	Cymru	
	2016	2016	2016	2016	2016	2016	2016	2016	2016	2016	2016	2016	
7	<85	6	17	17	7	9	16	4	15	16	6	12	13
	Rhwng 85 a 115	59	64	67	54	61	68	69	67	69	60	69	71
	>115	34	19	16	39	30	17	27	18	16	34	18	17
8	<85	8	17	16	7	9	15	5	16	16	4	15	13
	Rhwng 85 a 115	60	64	68	58	61	68	69	66	69	65	65	70
	>115	32	19	16	35	30	17	26	18	16	32	20	16
9	<85	6	18	17	6	9	16	6	16	17	14	20	20
	Rhwng 85 a 115	59	63	67	56	61	67	63	65	68	59	61	64
	>115	35	19	16	38	30	17	31	18	16	27	19	15

Canran y disgyblion a gafodd sgôr o 85 ac uwch:



Canran y disgyblion a gafodd sgôr o 115 ac uwch:



Mesur cynnydd

Mae'r mesur cynnydd yn eich galluogi i gymharu perfformiad pob disgybl â phob disgybl a gymerodd yr un prawf yn yr un grŵp blydyddyn. Mae'r mesur cynnydd yn ei gwneud hi'n bosibl tracio perfformiad cymharol dros amser.

Mae'r tablau isod yn crynhoi'r mesurau cynnydd ar gyfer eich ysgol, ynghyd â'r mesurau ar gyfer eich awdurdod lleol a Chymru at ddibenion cymharu. Gallwch:

- Gymharu perfformiad cymharol cohortau gwahanol o ddisgyblion ar adeg benodol (darllen y tabl yn llorweddol)
- Cymharu perfformiad cymharol un cohort o ddisgyblion ar wahanol adegau (darllen y tabl yn groeslinol)
- Cymharu perfformiad cymharol cohortau gwahanol o ddisgyblion yn eich ysgol a pherfformiad yn eich awdurdod lleol ac ar draws Cymru.

Canran y disgyblion y mae eu cynnydd yn gyfartalog neu'n uwch na'r cyfartaledd:

BCC	Darllen Saesneg					Darllen Cymraeg					Rhifedd Gwethdrefmol					Rhifedd Rhesymu				
	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016	Cymru 2016	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016	Cymru 2016	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016	Cymru 2015	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016	Cymru 2016
7	78	93	94	83	83	91	92	95	92	85	95	95	96	85	84	92	95	94	88	88
8	71	94	90	82	83	89	93	92	90	84	91	92	94	82	83	94	97	96	85	87
9	86	96	93	81	81	85	90	94	91	84	90	96	94	83	83	91	97	86	80	80

Sgôr mesur cynnydd cymedrig (heb gynnwys disgyblion wedi'u datgymhwyso neu oedd yn absennol):

BCC	Darllen Saesneg				Darllen Cymraeg				Rhifedd Gwethdrefmol				Rhifedd Rhesymu			
	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016	Ysgol 2014	Ysgol 2015	Ysgol 2016	ALI 2016
7	1012	1009	1012	1003	1011	1011	1012	1009	1009	1006	1009	1003	1006	1009	1010	1004
8	1011	1013	1009	1002	1011	1014	1011	1008	1007	1008	1008	1002	1008	1011	1011	1004
9	1007	1013	1012	1002	1006	1009	1014	1009	1009	1010	1011	1003	1004	1011	1010	1005

Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2016) ac yn genedlaethol (2015) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fel canran o'r rhai oedd yn gymwys i'w hasesu.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2015 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALI a Chymru


Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Caerdydd

Rhif yr ALI/Ysgol:681/4071


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2016
Cyfnod Allweddol 3

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o lefel (Lefel 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015
Saesneg	92	84	84	99	90	92	95	87	88
Cymraeg	92	89	87	98	97	94	95	93	91
Mathemateg	92	88	87	96	91	90	94	89	89
Gwyddoniaeth	97	89	90	99	94	94	98	92	92
DPC	90	80	80	96	87	88	93	83	84



Perfformiad yr ysgol dros amser (2012 - 2016)



Nodiadau:

- Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyfraddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
- DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o lefel lefel 5 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a nall i'r Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnic ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2015 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALI a Chymru


Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Caerdydd

Rhif yr ALI/Ysgol:681/4071


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2016
Cyfnod Allweddol 3

Canran disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig (Lefel 5+)

	Bachgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015
Cymraeg All iaith	0	75	75	0	86	88	0	80	81
Iaith Dramor Fodem	90	75	79	96	87	90	93	81	84
Dylunio a Thechnoleg	97	88	89	100	94	95	98	91	92
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	97	89	91	100	92	95	98	90	93
Hanes	96	83	86	99	91	93	97	87	90
Daearyddiaeth	93	84	87	99	91	93	96	87	90
Celf a Dylunio	98	87	88	100	94	96	99	90	92
Cerddoriaeth	97	87	89	99	90	95	98	89	92
Addysg Gorfforol	97	91	91	99	90	92	98	91	91



Perfformiad yr ysgol dros amser (2012 - 2016)



Nodiadau:

1. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodi bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y blwyddyn honno.

Aseidiadau Allanol CA4 a 5 a Gwybodaeth Gymharol

SSSP 2016

Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol (1) Rhif ALI/Ysgol **681 / 4071**

Disgyblion yn blwyddyn 11

Nifer y disgyblion yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2016 : **205**

Canran y disgyblion yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhw yster	enillodd drothw y Lefel 1	enillodd drothw y Lefel 2	enillodd drothw y Lefel 2 gan gynnwys TGAU mew n Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bw yntiau gyfartalog ehangach fesul disgybl w eddi'i chapio (3)	Sgôr bw yntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2015/16	100	98	77	70	66	356	554
Ardal ALI 2015/16	98	94	83	62	60	344	512
Cymru 2015/16	99	95	84	60	58	346	544
Ysgol 14/15/16	100	98	82	71	68	361	561
Ysgol 13/14/15	100	98	83	70	68	361	548

Nifer y bechgyn yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2016 : **94**

Canran y bechgyn yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhw yster	enillodd drothw y Lefel 1	enillodd drothw y Lefel 2	enillodd drothw y Lefel 2 gan gynnwys TGAU mew n Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bw yntiau gyfartalog ehangach fesul disgybl w eddi'i chapio (3)	Sgôr bw yntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2015/16	100	95	68	64	63	342	528
Ardal ALI 2015/16	98	93	81	57	56	335	491
Cymru 2015/16	99	94	80	56	54	334	518
Ysgol 14/15/16	100	97	79	69	67	350	540
Ysgol 13/14/15	100	97	82	71	68	351	530

Nifer y merched yn blwyddyn 11 a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2016 : **111**

Canran y merched yn blwyddyn 11 a:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhw yster	enillodd drothw y Lefel 1	enillodd drothw y Lefel 2	enillodd drothw y Lefel 2 gan gynnwys TGAU mew n Saesneg neu Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bw yntiau gyfartalog ehangach fesul disgybl w eddi'i chapio (3)	Sgôr bw yntiau gyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2015/16	100	100	85	75	68	367	577
Ardal ALI 2015/16	99	94	86	67	64	354	533
Cymru 2015/16	100	97	87	65	62	358	572
Ysgol 14/15/16	100	99	85	72	69	369	578
Ysgol 13/14/15	100	98	84	69	68	369	561

(1) I gael manylion ar gymhw ysterau sydd w eddi'u cymeradw yo, sgôr pw yntiau a chyfraniad at y throthw y, gw eler y Gronfa Ddata Cymw ysterau Cymeradw y Cymru (DAQW) yn <http://www.daqw.org.uk/>

(2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pw nc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.

(3) Cyfrifir y sgôr pw yntiau cyfartalog eang w eddi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 calhyniad gorau.

(4) Cymhw yster Lefel Mynediad.

(5) Defnyddir ar gyfer holl dablau meincnodi prydau am ddim. Dangosir y dangosydd yma dim ond am ysgollion uw chradd prif ffrw d.

(6) Nodw ch mai enw adur y dangosydd yma yw'r disgyblion yn blwyddyn 11 a geisiodd arholiad Cymraeg iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfansw m yr holl ddisgyblion yn blwyddyn 11.

.. Data ddim ar gael.

Arholiadau Safon Uwch

Cafwyd llwyddiant mawr eto eleni, a system arfarnu gwerth atodol disgyblion (ALPS) yn nodi gwerth ategol 'Ardderchog ar y cyfan' ar gyfer y garfan. Gweler y Trosolwg Pefformiad uchod am fanylion cymharol.

Cyfnod Allweddol 4

Er y llwyddiannau uchod dymuna'r ysgol weld cynnydd pellach yn Haf 2017 o ran Trothwy Lefel 2 a 2 gan gynnwys iaith a Mathemateg CA4.

Atodiad 2

Dyddiadau Tymor Ysgol 2016 – 2017

Tymor yr Hydref 2016

Dechrau: Dydd Llun 01/09/16

Hanner tymor: Dydd Llun 24/10/16 – Dydd Gwener 28/10/16

Diwedd: Dydd Gwener 16/12/16

Tymor y Gwanwyn 2017

Dechrau: Dydd Mawrth 03/01/17

Hanner tymor: Dydd Llun 20/02/17 – Dydd Gwener 24/02/17

Diwedd: Dydd Gwener 07/04/17

Tymor yr Haf 2017

Dechrau: Dydd Llun 24/04/17

Hanner tymor: Dydd Llun 29/05/17 – Dydd Gwener 02/06/17

Diwedd: Dydd Gwener 21/07/17

Atodiad 3

Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw.

Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 30 o ddisgyblion cofrestredig lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob riant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu.

Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos y wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod.

Ystyr “diwrnod ysgol” yw diwrnod pan fo’r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw’n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma’r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu’r ysgol:

*Mr Gareth Jones
Clerc I’r Corff Llywodraethu
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol Y Bont
Ystum Taf
Caerdydd CF142JL*

Mae rhagor o wybodaeth i’w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy>

Hydref 2016